WQ35.S 43

# CAN O ALARNAD,

ER

*COFFADWRIAETH*

AM

# Y PARCH. DAVID EVANS,

## MORFA MAWR,

YN SIR ABERTEIFI,

Yr hwn a hunodd gydâ'i dadau, Awst 21, 1825
yn 56 mlwydd oed.

GAN EVAN REES.

*A gyhoeddwyd trwy gydsyniad Cyfarfod Misol Sir Aberteifi, a gynnaliwyd yn Llanarth, Hydref 25 a 26, 1825.*

---

"O ardderchawgrwydd Israel, efe a archollwyd ar dy uchelfaoedd di: pa fodd y cwympodd y cedyrn!" 2 Sam. i. 19,

---

*ABERYSTWYTH,*

ARGRAFFWYD GAN ESTHER WILLIAMS.

1826.

X2053086777

# Can o Alarnad, &c.

1 GALARU 'r wyf yn awr,
Wrth deithio ar y llawr,
Gwaith angeu du, sydd wedi tori i lawr;
Ein cyfaill, o'r ffyddlona' fu,
'Madawodd â'i ddaiarol dŷ,
Ei babell a ddattododd, diangodd arnom ni.

2 Pa fodd adrodda' i 'n awr
Am *Evans, Morfa mawr?*
Bydd hyn mewn co',—Mae wedi gado'r llawr!
Er maint yw'r cwyno sy 'mhob lle,
Diangodd ef o'r ddae'r i'r ne';
Mae llawer deg yn wylo, wrth gofio am dano fe.

3 Doed pawb i wylo 'nawr,
Oddiyma i Lundain fawr,
Waith newydd syn yw hyn, i'w roi ar lawr.
I'r brenin deiliad ffyddlon bu,
A thros ei gyfraith safai'n hy,
Gweddio dros ei goron a wnai o'i galon gu.

4 'Roedd ef yn ffyddlawn iawn,
Yn meddu gras a dawn,
Fe saethai'r nod, yn hynod ac yn llawn:
Fel angel glân ehedai'n glyd,
Yn nghanol nef uwch niwed byd;
Pregethai wirioneddau, nes llonai'r dyrfa y'nghyd.

5 Ei destun hyfryd sain
Oedd clwyfau'r goron ddrain,
Yr hoelion llym, a loesion grym y rhai'n:
Wrth draethu'r gwirioneddau hyn,
Newidiai 'i wedd yn rhyfedd syn,
A'i lygaid, fel ffynonau, ddyferai ddagrau'n llyn.

6 Ei lais fel taran gref,
A'i ddoniau hyfryd ef,
Fe draethai'n llon, ddirgelion dyfnion nef:
Fel eryr craff ehedai'n gry',
Fe dreiddiai i'r dirgelion fry;
Fel ych a'i gwys yn gyson, fel gwas yn ffyddlon bu.

7 Fel llew y byddai'n hy,
Yn erbyn pechod du,
A'i nerth yn grwn, yn erbyn hwn y bu;
Gwyliedydd ydoedd ar y mur,
Y drwg o draw ganfyddai'n glir,
Rhybuddiai'r ddinas sanctaidd, i ffoi i'r anedd wir.

Chwenychwn ddigon 'ddawn,
I'w ganmol ef yn iawn;
Bu yn y gwaith, yn helaeth ac yn llawn:
Yn ffyddlon i'r ysgolion bu,
Ag ymborth llawn, fe borthai'r llu,
Hyfforddai'n hoff yr ie'ngctid, yn hyfryd ac yn hy.

9 Fe deithiodd drwy bob lle,
Yn Ngwynedd faith a De',
Yn rhyfedd lon, a ffyddlawn yn ei le;
Yn *Llundain, Bryste*, bu o'r bron,
Yn cario'r genadwri hon;
Wrth gofio'i roi mewn daear, mae galar dan fy mron.

10 Defnyddiol iawn ar g'oedd,
Yn ei ardaloedd oedd,
Fe lanwai'r tai, lle byddai'n rhoddi bloedd:
Yn eglur ac yn oleu lawn,
Esponiai'r ysgrythurau'n iawn,
'Nol cywir ddarluniadau hen dadau boreu, cawn.

11 Fe chwiliai *Goodwin* gall,
A *Henry* yn ddiball,
A'r enwog wyr, mewn myfyr, yn ddi wall:

Wrth chwiliaw 'rhai'n, fe blygai fe,
A chodai 'i olwg tua'r ne',
Am gymhorth sanctaidd Yspryd, i ddywedyd yn ei le.

12 'Nol llanw ei gawell cu
A saethau'r nefoedd fry,
Fe d'rawai'r nod, yn hynod ac yn hy;
At drwch y blewyn, taflai saeth,
'Nol cyfarwyddyd nefoedd aeth,
A chlwyfo llawer gelyn, yn sydyn ef a wnaeth.

13 Defnyddiol ydoedd e',
Yn mhob cymdeithas le,
A phwyllog, dwys, a dawnus yn ddible:
Fe chwiliai'n lew, fe chwalai'n gall,
Bob rhyw gymylau gasglai'r fall;
Rhybuddiai rhag y bleiddiau, bugeiliai yn ddiwall.

14 Mae tystion, yn mhob man,
Mai cyfaill oedd i'r gwan;
A'r fras a'r gref, gai ganddo ef ei rhan:
Fe borthai'r lesg, idd ei chryfhau,
A dychwel y darfedig wnai,
A dangos Ceidwad hefyd wnai i'r colledig rai.

15 Yn mhlith yr enwog wyr,
Yn y gymanfa glir,
Yn arfau'r nef, y safai ar y mur;
Mewn cyrddau misol yn ei Sir
Y byddai yn pregethu'r gwir;
O'r dewisolion byddai, yn Ne' a Gogledd dir.

16 Pum' talent gafodd e',
Marchnattodd yn ei le;
Maent heddyw'n ddeg, neu 'chwaneg, yn y ne':
Ei Arglwydd a'i groesawai'n llawn,
"Dos mewn, was da a ffyddlon iawn,
"Meddianna y llawenydd trag'wyddol, ddedwydd [ddawn."

17 'Nol ugain mlynedd faith,
O lafur yn y gwaith,
Cyrhaeddai'n llwyr, yn gywir hen ei daith;
Ar Sabath ddydd, yn ddedwydd lawn,
Am dri o'r gloch, yn foreu iawn,
Cyrhaeddai fynwes Iesu, i ganu am ei Iawn.

18 Pan oedd hen angeu du,
Yn nesu 'mlaen yn hy,
Ca'dd gysur llawn, yn uniawn oddi fry;
Fe dd'wedodd wrth ei frodyr cu,
" Y graig gymhellais arnoch chwi,
" Mae yn fy nal i heddy', rhag soddi yn y lli'."

19 Angylion ddaeth i lawr,
Yn llawen, gydâ'r wawr,
I'w ddwyn yn wych, i entrych nefoedd fawr:
Mae yno'n lân, yn mhlith y llu,
Yn seinio cân am Galfari,
Yn mhlith y dorf Ferthyron, angylion heb ddim rhi'.

20 Yn mhlith y dyrfa lân,
Yn uchel iawn ei gân,
Mae *Evans* fry, i'w gyfri'n ddiwahan
A'r dyrfa sydd yn seinio clod
I'r hwn a'u carodd cyn eu bod,
Yn mhlith y llu coronog, yn enwog uwch y rhod.

21 Ac yno'n ddifyr iawn,
Mae *Morris* felus ddawn,
Heb glais na chlwy,—'n eu cwmni hwy na bawn!
Yn ddisglaer fel yr haul heb len,
Yn berffaith lân a'u gwisg yn wen,
Yn chwareu'r nefawl dannau, a ch'ronau ar eu pen.

22 Annhraethol hardd bob un,
Yn moli Tri yn Un,
Mewn cariad pur, mae'r brodyr yn gytun:

Y dellt, pan yma, gwelent trwy,
Wyneb yn wyneb gwelant mwy,
Ac fel eu hadnabyddir, adwaenir ganddynt hwy.

23 O fewn i'r ardal lân,
Mae'n uchel iawn ei gân,
Yn seinio clod i'r Drindod, heb wahan;
Am gariad rhad, a chyngor drud,
A'r arfaeth draw cyn dechreu'r byd,
Cyfamod rhad trag'wyddol, yw'r nefol gân o hyd.

24 Mae'n gwel'd y Person hardd
Fu'n chwysu yn yr ardd;
Wrth wel'd ei wedd, y nefawl hedd a dardd;
Wrth wel'd y pen fu dan y drain,
A'r ystlys wanodd picell fain,
A'r ddwylaw fu tan hoelion, mae'n cyson roddi sain.

25 Mae'm meddwl lawer pryd,
Yn 'hedeg uwch y byd,
I'r nefawl wledd, sy draw i'r bedd o hyd;
Dychymygwn weled, fel y wawr,
Ryw dorf a welais ar y llawr,
Heb ddeigryn ar eu hwyneb, i drag'wyddoldeb mawr.

26 Nid yw'r hen hunan hy,
Na'r hen genfigen ddu,
Na'r bleiddiau blin, sydd yn ein dilyn ni,
Na'r opiniynau brwnt eu blas,
Sy'u llanw conglau'r ddaear las, [cornio cas.
Byth mewn i'ch gwlad yn beiddio, na chwaith eu

27 Mae'n dawel iawn o hyd,
O fewn i'r nefawl fyd,
Mae pawb yn lân, heb un gwahan ei fryd;
Un meddwl pur yw pawb o'r llu,
Nid fel mae yma gyda ni,
Pawb sy'n cytuno'n hollol i ganmawl Iesu cu.

28 'Does eisiau byth yn bod,
Gael dae'r i roddi'th dro'd,
'Rwyt fel y wawr, yn teithio'n awr, uwch rhod;
Yr wyt yn gallu byw o hyd,
Heb hiraeth am ddanteithion byd;
Mae'r arlwy fawr drag'wyddol yn hollol lanw'th fryd.

29 'Does arnoch eisiau'n hwy,
I gofio am ei glwy',
Gael bara a gwin, yn sanctaidd gymun mwy;
Yr ydych yna'n gwel'd heb len,
Yr hwn fu'n gwaedu ar y pren,
Yn sefyll yn ei wregys, a'r enfys ar ei ben.

30 Ffarwel, tra ar y llawr,
Mae'n rhaid ymadaw'n awr;
Bydd melus go', pan gano'r udgorn mawr,
Am lawer hyfryd gwrdd a ga'w'd,
Pan oeddym yma yn y cnawd,
A'r Iesu yn y canol: ffarwel, fy anwyl frawd.

31 *Elizabeth* yn awr
Sy'n weddw ar y llawr,
Rhaid teithio trwy, heb weled mwy ei wawr;
Ni wiw it' wylo dagrau mwy,
'Does gysur ond mewn marwol glwy';
Defnyddia'r addewidion, a'u holl gysuron hwy.

32 Ei ddyddiau, cyn bod byd,
Oedd wedi eu rhifo i gyd;
Fe ddaeth i ben, 'nol arfaeth nen, y pryd
I 'madaw'n lân a'r ddaear lawr,
Heb fodd i estyn munud awr;
Fe aeth yn dywysen addfed, i drag'wyddoldeb mawr.

33 *Cholera Morbus* † ddaeth,
Ac angeu a'i farwol saeth,
Trwy wewyr mawr, a'i dori i lawr a wnaeth:

† Enw ei glefyd.

Y Sul diweddaf yn y byd,
Pregethodd dair o weithiau 'nghyd;
Yn foreu'r Sul canlynol, 'r oedd yn y nefoedd glyd.

34 Chwi blant sydd yn ei dŷ,
A'i neithiont ieuaingc sy
Heb dad na mam, i wrthod cam, fel bu,
O cofiwch ei gynghorion maith,
Tra fyddoch yma ar eich taith,
Ac yn ei lwybrau rhodiwch, ymaflwch yn ei waith.

35 O Sion ar y llawr,
Sydd yn galaru'n awr,
Ymdreigla'n rhwydd yn ngwydd dy Arglwydd mawr:
Fel Ester, dos, heb achos braw,
Mae'r deyrnwialen yn ei law,
Mae'n addaw gwna fe wrando pwy bynag atto ddaw.

36 Cais ganddo daflu 'nawr,
Ei fantell fel y wawr,
Ar bob un sy'n gwas'naethu ar y llawr:
Ei Yspryd Glân, fel c'lomen gu,
Ddisgyno'n danllyd arnom ni,
Ac eistedd wnelo etto, nes llanwo yr holl dŷ.

—o—

*DIWEDD.*

—o—

Aberystwyth, Argraffwyd gan Esther Williams.